

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Nia Heledd Jones

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

4/7/2017

**Presennol:** Heledd Jones (Cadeirydd), Alwyn E Jones (Is-gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow

Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

#### Ymddiheuriadau:

**1730** Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Dewi Jones a Beryl Hughes Griffiths.

**1731** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

**1732** Nid oedd datganiadau buddiant.

**1733** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mehefin 6, 2017

**1734 Y Fynwent:** Derbyniwyd adroddiad o ymweliad yr is-bwyllgor â'r safle. Mae Swyddog y Fynwent mewn cysylltiad gyda'r Brodyr Evans am waith sydd angen ei wneud yn y fynwent. Cytunwyd i ofyn i Chris Ellis gwneud defnydd o'r pridd i lenwi fel y bo angen. Gan fod angen tacluso pellach ar y fynwent, cytunwyd i osod rhybudd yn y Wasg y bydd y Cyngor yn gweithredu ei pholisi i symud neu waredu addurniadau, planhigion ac unrhyw wrthrych sy'n groes i'r Polisi. (Mae'r polisi cryno ar hysbysfwrdd y fynwent ac i'w weld yn gyflawn ar wefan y Cyngor <http://www.cynghoraupenllyncouncils.co.uk>)

Dywedodd Alan Jones Evans y byddai'n holi am gasglu'r biniau.

Cytunwyd y byddai'r Is-bwyllgor yn edrych ar amodau'r ffioedd yn eu cyfarfod yn yr hydref.

**1735 Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir a soniodd fod Cabinet Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo statws cymunedol (anenwadol) i'r ysgol gydol oes newydd yn Y Bala.

**1736 Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Huw P Roberts a soniodd am yr angen i amaethwyr osod sustem tracio ar beiriannau ac i roi gwybod i'r Heddlu am unrhyw droseddau.

**1737 Materion ariannol:** Cytunwyd i dalu'r anfonebau a ddaeth i law. Adroddodd y Swyddog Ariannol fod British Gas yn hawlio taliad am anfoneb yn dyddio o 2013, er bod cofnodion manwl ganddi i ddweud nad oes dyled arnom. Diolchwyd iddi am ei gwaith gyda'r mater hwn.

#### 1738 Materion lleol:

- i. Mae Llwybr y Cŵn wedi cael ei dorri gan Wardeiniaid Lleol Parc Cenedlaethol Eryri a chytunwyd i ddiolch iddynt am ei hymateb parod ac effeithiol.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth fod Mr Iorwerth Evans yn bwriadu rhoi'r gorau i ofalu am y blodau wrth fynedfa'r Fynwent newydd. Cytunwyd i anfon at Mr Evans i ddiolch

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Nia Heledd Jones

---

iddo am flynyddoedd hir o wasanaeth gwirfoddol; mae ei gyfraniad wedi bod yn un gwerthfawr iawn. Cytunodd y Cadeirydd i holi a fyddai Clwb Garddio'r ysgol yn dymuno cymryd at y gwaith.

- iii. Adroddodd Rhodri Jones iddo fynychu ymweliad safle gyda Swyddog Parc Cenedlaethol Eryri i ystyried gwelliannau i Lwybr y Cei. Mae llawer o waith i'w wneud dros sawl tymor ac mae'r gwaith yn cyd-fynd ag amodau'r grant. Cytunodd y Cyngorwyr i wahodd pum person lleol i roi cynnig i wneud y rhan cyntaf o'r gwaith. Diolchwyd i Rhodri Jones a Huw P Roberts am ymgymryd â threfnu'r gwaith grant yn lleol ac am yrru'r cynllun hwn yn ei flaen.
- iv. Gan nad oes defnydd cymunedol amlwg, cytunwyd i beidio a phrynu ciosg Pennantlliw.
- v. Derbyniwyd gwybodaeth fod y gwaith ar gwblhau Llwybr Tegid yn parhau o dan drafodaeth.

**1739 Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr a soniodd fod Sioned Evans wedi cymryd swydd Cydlynedd. Mae ffocws y gwaith yn awr ar geisio cael rheolaeth lawn ar doiledau cyhoeddus Y Bala er mwyn eu cadw ar agor yn y lle cyntaf ac wedyn eu gwella. Mae'r cynlluniau i uwchraddio Canolfan Henblas yn derbyn sylw.

### **1740 Gohebiaeth:**

Parc Cenedlaethol Eryri: Cymeradwywyd y ceisiadau cynllunio canlynol:

- i. NP5/71/T254A Adeiladu estyniadau ochr a chefn, Dolhendre Uchaf
- ii. NP5/71/T21H Codi estyniad cefn, Dolhendre Isaf
- iii. NP5/71/409C Creu pwll ar gyfer bywyd gwyllt/mwynder a physgod Bryn Caled, Llanuwchllyn
- iv. NP5/71/117B Codi adeilad amaethyddol, Tir ger fferm Pant y Ceubren

Llywodraeth: Derbyniwyd gwybodaeth am weithdai yn ymwneud a thrin gwastraff niwclear. Cytunwyd i anfon i fynegi gwrthwynebiad i'r egwyddor o geisio denu diddordeb cyngorau trwy gynnig swyddi yn gofalu am wastraff niwclear.

Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am y rhaglen hyfforddiant, i'w ystyried ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

*Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 5/9/2017 yn y Neuadd Bentref*